**Tasg 1**

# Gigio yn Llundain

Dewiswch un o'r traciau ac ysgrifennwch adolygiad!

**Canllaw ysgrifennu adolygiad:**

Pwrpas adolygiad yw dweud beth yw eich barn chi am yr hyn rydych chi'n ei adolygu. Fel darllenydd, wrth ddarllen adolygiad rydym yn ceisio penderfynu os yw'r testun yn mynd i fod yn rhywbeth y byddem ni'n ei fwynhau ai peidio… hyd yn oed os yw'r adolygiad yn un negyddol!

Felly, dilynwch y pwyntiau bwled yma i gynllunio eich adolygiad:

**Cynnwys**:

- Cyflwynwch eich testun gan gynnwys enw'r gân a'r grŵp ac unrhyw wybodaeth ddiddorol amdano.
- Pa fath o gerddoriaeth? Tebyg i beth?
- Sut mae'r gân yn gwneud i chi deimlo?
- Ydych chi wedi clywed rhywbeth tebyg o'r blaen?
- Ydych chi'n debygol o wrando ar y gân yma eto?
- Ydych chi'n debygol o wrando ar ganeuon eraill gan y band?

**Iaith**:

- Byddwch yn ysgrifennu yn y person cyntaf, e.e. "Rydw i wrth fy modd …", "Rwy'n teimlo …", "Mae'n gas gen i …" / "Mae'n gas gyda fi …"
- Defnyddiwch ansoddeiriau.
- Peidiwch ag ysgrifennu brawddegau hir a chymhleth.
- Byddwch yn bendant eich barn er mwyn cael diweddglo cryf.